

2023 Rhif (Cy.)

2023 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Cemaes a Chwm Llinau, Powys)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2023

The A470 Trunk Road (Cemmaes
and Cwm Llinau, Powys)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2023

Gwnaed 24 Hydref 2023

Made 24 October 2023

Yn dod i rym 30 Hydref 2023

Coming into force 30 October 2023

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cemaes a Chwm Llinau, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Hydref 2023.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Cemmaes and Cwm Llinau, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2023 and this Order comes into force on 30 October 2023.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, cerbydau gwasanaethau cynnal a chadw yn ystod y gaeaf neu gerbydau sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services, winter maintenance service vehicles or vehicles being used in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 30 Hydref 2023 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o’r gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Glantwymyn i Fallwyd.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar:

- (i) y darn o’r gefnffordd yng Nghemaes, Powys sy’n ymestyn o’r arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen deheuol y pentref hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen gogleddol y pentref;
- (ii) y darn o’r gefnffordd yng Nghwm Llinau, Powys sy’n ymestyn o bwynt 200 metr i’r de o’r arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen deheuol y pentref hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol ym mhen gogleddol y pentref.

Cymhwys

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Hydref 2023

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cemmaes Road to Mallwyd trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 30 October 2023 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on:

- (i) the length of the trunk road at Cemmaes, Powys that extends from the permanent 40 mph speed limit terminus sign at the southern end of the village to the permanent 40 mph speed limit terminus sign at the northern end of the village;
- (ii) the length of the trunk road at Cwm Llinau, Powys that extends from a point 200 metres south of the permanent 40 mph speed limit terminus sign at the southern end of the village to the permanent 40 mph speed limit terminus sign at the northern end of the village.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

24 October 2023

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government